Cenn@d

TACHWEDD 10 2021 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 37

Cofio a choffáu – ‘Anfonaf angel’

Yn yr erthygl hon mae Aled Davies yn ystyried pwysigrwydd cofio a sut mae modd gwneud hynny mewn ffordd adeiladol ac ystyrlon.

Tymor y Cofio

Mae’n dymor y cofio a’r coffáu ar hyn o bryd. Nodir Tachwedd 1af fel dyddiad dathlu Gŵyl yr Holl Saint yn y calendr eglwysig, gŵyl sy’n achlysur i roi diolch i Dduw am fywydau a marwolaethau ei saint – y rhai enwog a’r rhai anhysbys. Mae’n debyg fod tarddiad yr ŵyl yn mynd yn ôl i’r 8fed ganrif, wrth iddi gymryd lle’r hen ŵyl Geltaidd Samhain. Mae dathlu Gŵyl yr Holl Saint yn tarddu o’r gred fod cyswllt grymus rhwng y rhai sydd yn y nefoedd (yr ‘Eglwys Fuddugoliaethus’) a’r byw (yr ‘Eglwys Filwriaethus’).

Erbyn hyn, ceir llai o sôn am yr ŵyl ym mywyd yr eglwysi, wrth i fwy o sylw gael ei roi gan y gymuned ehangach i ŵyl Calan Gaeaf, gyda’i ddylanwad Eingl-Americanaidd dieflig a dychrynllyd. Ond a oes lle i ni fel Cristnogion i gofio, a sut orau fedrwn ni nodi hynny?

Sul y Cofio

Cynhelir Sul y Cofio ar y Sul yn dilyn Tachwedd 11eg, sef y diwrnod a nodir i gofio diwedd swyddogol y Rhyfel Byd Cyntaf, ac mae’r Sul hwnnw eleni’n disgyn ar Dachwedd 14eg. Hwn yw’r diwrnod y cofir ym Mhrydain am y rhai a fu farw yn y Rhyfel Byd Cyntaf a’r Ail Ryfel Byd, ac mae ei union ddyddiad yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn. I ddechrau, ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf, roedd yn cael ei ddathlu fel ‘Diwrnod y Cadoediad’ (11 Tachwedd), ond ym 1945 newidiwyd yr enw i ‘Sul y Cofio’.

Ers 1956 mae’n cael ei nodi ar y dydd Sul cyntaf ar ôl Diwrnod y Cadoediad. Cedwir dau funud o ddistawrwydd am 11 o’r gloch y bore o flaen y Senotaff yn Llundain yng nghwmni’r teulu brenhinol a phrif wleidyddion San Steffan. Daw prif wleidyddion Cymru at ei gilydd o flaen y gofeb genedlaethol yng Nghaerdydd, a hynny i gofio llofnodi’r cadoediad a ddaeth â’r Rhyfel Byd Cyntaf i ben ar 11 Tachwedd 1918.

Yng Nghymru collwyd yn agos at 60,000 o fywydau yn y ddau ryfel byd, y rhan fwyaf o’r rheini’n fechgyn ifanc ac iach. Bydd pobl yn dewis gwisgo bathodyn y pabi coch i ddangos eu ‘cofio personol’ a rhoddir torchau’n cynnwys y pabi coch o flaen y cofebau rhyfel ledled y wlad. Bu gwerthu’r pabi coch yn ymdrech flynyddol gan y Lleng Brydeinig er mwyn codi arian ar gyfer y rhai a effeithiwyd gan ryfel ac i gefnogi teuluoedd y milwyr a gollwyd. Fe’i gwisgir fel arwydd gweledol o ymrwymiad i gofio am y rhai a gollwyd mewn rhyfeloedd byd.

Bydd rhai hefyd yn dewis gwisgo pabi gwyn yn hytrach na’r un coch. Mae’n cynrychioli tri pheth: symbol gweledol o gofio am bawb a fu farw oherwydd effaith rhyfel; arwydd o ymrwymiad i ymgyrchu a gweddïo dros heddwch; ac adduned i herio pob ymgais gan gymdeithas i ddathlu a gorfoleddu mewn grym militariaeth.

Cafodd ei greu mewn ymateb i’r pabi coch gan rai oedd yn teimlo bod cysylltiad rhy agos rhwng y pabi coch a’r lluoedd arfog, a’i fod yn cael ei ddefnyddio i glodfori rhyfelgarwch ac i gyfiawnhau rhyfela yn y cyfnod modern. Nid dim ond milwyr sy’n cael eu cofio drwy’r pabi gwyn, ond pawb sydd wedi marw oherwydd rhyfel. Mae’r gair ‘hedd’ wedi ei ysgrifennu yng nghanol y pabi hwn. Yn aml mae gwisgo pabi gwyn yn arwydd o wrthwynebiad i unrhyw fath o ryfel. Mae gwisgo’r pabi gwyn, fel y pabi coch, wedi bod yn fater dadleuol, gan fod rhai’n ei weld fel ymosodiad ar filwyr sydd wedi aberthu eu bywydau mewn rhyfel.

Gŵyl o angylion

Yn Wrecsam, ar hyn o bryd, mae Eglwys Anglicanaidd Sant Silin wedi trefnu arddangosfa sy’n coffáu’r bywydau a gollwyd i Covid-19 yng Nghymru dros y 18 mis diwethaf. Wrth i mi fentro draw yno i ymweld â’r arddangosfa roedd 6,214 o angylion yn cael eu harddangos yn yr eglwys ar y pryd – a’r rheini wedi eu gwau a’u gwnïo’n gelfydd, pob un yn unigryw a gwahanol, ac yn llenwi’r eglwys o’r llawr i’r nenfwd, dros y muriau ac o amgylch y pileri.

Mae’r arddangosfa i’w gweld yno tan Ionawr 6ed, ac os byddwch yng nghyffiniau Wrecsam yn ystod y deufis nesaf, cofiwch fod modd troi i mewn i’r eglwys rhwng 10 a 4 o’r gloch bob dydd. Mae’n brofiad bendithiol ac emosiynol, ac yn gyfle i offrymu gweddi dros gydnabod a gollwyd i’r pandemig.

Diolch o galon i gyfeillion Sant Silin am drefnu hyn ac am roi cyfle i bobl ymgasglu a rhannu eu galar a’u hiraeth. Mae’n wledd i’r llygad, ond yr un pryd yn sobreiddiol o drist. Wrth fynd o gwmpas yr eglwys sylwais ar focs o dan y bwrdd yn yr eglwys – bocs oedd yn llawn o angylion nad oeddent wedi eu harddangos eto. Roedd hwn yn arwydd nad yw’r pandemig wedi ein gadael mewn gwirionedd, a bod bywydau’n dal i gael eu colli, ac y byddai angen ychwanegu angylion eto bob dydd.

Cofio a dysgu

Bydd llawer yn cofio’n hiraethus am anwyliaid a gollwyd mewn rhyfel, am rai a gollwyd i bandemig creulon neu i drychineb damwain neu gyflafan. Yng Nghymru byddwn yn cofio am y 144 o fywydau a gollwyd, dros 120 ohonynt yn blant ifanc, yn nhrychineb Aberfan – ac er bod 55 mlynedd wedi mynd heibio, mae’r boen a’r golled yn aros, a’r cofio yr un mor bwysig.

(parhad ar y dudalen nesaf)

O’r byd a’r betws
Brechlyn Rhyfel
Tudalen 2

Y Silff Lyfrau
Heb eu Tebyg: Deg Portread (Harri Parri)
Tudalen 3

Cyfarfod Sefydlu’r
Parchedig Owain Idwal Davies
Tudalen 7

Cofio a choffáu – 'Anfonaf angel'

(parhad o dudalen 1)

Yr her ym mhob cofio yw dysgu o'r profiadau hynny, gan geisio creu gwell yfory ar gyfer y genhedlaeth nesaf. O'r cofio rydym wedi cyfeirio ato uchod, gweddïwn dros fyd heddychlon, di-ryfel a di-drais ar gyfer y cenedlaethau a ddaw i'n dilyn; gweddïwn am fyd lle mae pob aflwydd a salwch wedi ei goncro gan driniaethau a brechlynnau er mwyn creu byd iach a llesol i bawb; a gweddïwn am gymunedau diogel heb beryglon lle nad oes bygythion ar sail llygredd a chasineb.

Gobeithio y gall llywodraethau ac arweinwyr ddysgu o brofiadau ymgyrchoedd rhyfel, delio â phandemig byd-eang a chyfrifoldeb lleol i ddiogelu pobl o fewn y gymuned. Diolch am gymorth meddygol, cymorth gwyddonwyr a chymorth pob diplomat a chymodwr yn y dyddiau heriol hyn. Cofiwn, coffawn a gweddïwn yn wylaidd dros ein dyfodol fel dynoliaeth.

Arglwydd pawb,
Heddiw cofiwn am bawb a effeithiwyd gan ryfeloedd,
gan bandemig a chan gyflafan neu ddamwain erchyll.
Cyflwynwn ein gweddïau dros bawb a adawyd yn alarus
a hiraethus.
Gofynnwn i Ti eu cofleidio â'th gariad tragwyddol.
Rho i ni nerth a gras i weithio o blaid byd gwell i bawb,
cymdeithas a chymuned ddiogel a chyfeillgar ar gyfer holl bobl
Dduw.
Helpa ni, wrth i ni gofio, i fod yn barod i weithredu er lles y byd.

Rho ddoethineb i bawb sy'n gweithio dros heddwch,
fel y gellir gwarantu dyfodol sicrach i bawb.
Rho ddewrder i'r rhai sy'n ymdrechu am gyfiawnder,
fel y gellir goresgyn achosion o wrthdaro.
Rho nerth i'r rhai sy'n ceisio chwalu muriau,
fel y gellir rhoi terfyn ar ymraniadau oherwydd hil, lliw, credo
a diwylliant.
Lle bynnag mae rhyfel neu fygythiad rhyfel yn parhau i
aflonyddu ar fywydau,
boed i lwybr cymod gael ei ddarganfod,
a boed i gytgord gael ei sefydlu rhwng pobloedd a
chenhedloedd.
Arglwydd, yn dy drugaredd, clyw ein gweddi. Amen.

O'r byd a'r betws

Brechlyn Rhyfel

Erbyn cyhoeddi'r erthygl hon, bydd cynhadledd COP26 yn Glasgow yn tynnu at ei therfyn a'r wasg a'r cyfryngau'n brysur yn dadansoddi ei datganiadau. Bydd yna dyndra bargeinio wedi digwydd, fel ym mhob cynhadledd, ond prin y byddwn ninnau wedi dechrau amgyffred mor argyfyngus yw'r sefyllfa ar draws y byd.

Dihidrwydd

Gwelsom luniau o ganlyniad stormydd a thanau, corwyntoedd a thywydd eithriadol boeth, a gwelwn ynddynt arwyddion o'n dihidrwydd ni i ofidiau pobl eraill. Oni bai mai ein tai a'n bywoliaeth ni sy'n profi'r erchylltra, gallwn yn hawdd gau ein llygaid, ac esgus mai mater i bobl eraill yw argyfwng hinsawdd.

Tyndra

Onid yw'r un gwirionedd yn wir am dyndra rhwng pobl a'i gilydd, hyd at ryfel erchyll a chasineb gorffwyll rhwng pobl a arferai gyd-fyw mewn heddwch. O gwmpas y cofgolofnau rhyfel a chofio'r sawl a fu farw ar faes y gad byddwn yn talu gwrogaeth i ddewrder ein cyndadau, a diolch na fu rhyfel ar diroedd Prydain ers canrifoedd bellach. Ond prin fod hyn yn ddatrysiad i heriau gwledydd fel Syria ac Afghanistan.

Gor-symleiddio

Nid oes modd i ni ddeall beth sy'n tanseilio heddwch mewn llawer o wledydd, na'r hyn sy'n bygwth stormydd cymdeithasol newydd yn rhai o wledydd cyfandir yr Affrig. Bydd cyflwyno dadleuon yn enw heddychiaeth yn rhesymol hawdd, nes ein bod yn clywed am anghyfiawnder a thrais, gan ofyn beth oedd achos y stormydd cymdeithasol hyn. Cyfeiriwyd droeon gan wleidyddion a phobl filitaraidd fod angen strategaeth diwedd y rhyfel cyn dechrau ar strategaeth mynd i ryfel. Hawdd deall y ddadl, ond paham mae gwleidyddion yn paratoi at ryfel drwy arfogi yn hytrach na buddsoddi mewn strategaeth cyd-fyw mewn byd cyfartal, cyfiawn a theg?

Anghyfartaledd

Mae'n siŵr fod yr ymateb yn dweud fod y byd yn reddfol anghyfartal a dynion yn fodau anghyfiawn. Bydd anifeiliaid o bob rhywogaeth yn rhoi'r lle blaenllaw i'r cryfaf a'r sawl sydd drechaf dros eraill. Y llew cryfaf yw brenin ei fyd, a phan fydd eliffant sy'n drech na'r hen eliffant, hwnnw gaiff fod yn brif anifail ei diriogaeth. Onid rhan o neges sylfaenol Cristnogaeth yw sôn am ehangder hollgynhwysol cariad Duw, ac nad oes ganddo ffefrynnau yn ei Deyrnas? Nid cyfundrefn grym materol oedd dewis Iesu ond marchogaeth ar ebol asyn i mewn i Jerwsalem ei groeshoeliad.

Cofio, cydymdeimlo a chyd-dynnu

Wrth gofio gyda theuluoedd galar y gorffennol, a hynny yn wylaidd a didwyll, ceisiwn gynnal breichiau teuluoedd y sawl a fu farw'n gwisgo lifrai milwrol pob gwlad. Yr un pryd, byddwn yn gweddïo am weledigaeth sut i herio tlodi ac anghyfiawnder ledled daear. Gobeithio'n wir y daw cyd-dynnu rhyngwladol parthed wynebu heriau cynhesu byd-eang, problem sy'n llawer mwy na heriau Covid-19, ond her ddyfnach fyth yw herio greddf anifeilaidd pob dyn i drechu eraill, a hawlio pŵer trais. Wrth ddiolch am frechlynnau i wynebu Covid, gweddïwn am frechlyn i droi casineb yn gariad ac y bydd y llew a'r llo yn cyd-bori. Oddi ar ei groes, deisyfodd Iesu ar ei Dad nefol i faddau i'r milwyr a'r dyrfa, ac i agor drws i sefydlu Teyrnas Newydd i fyd cyfan.

Denzil John

Y Silff Lyfrau

Heb eu Tebyg: Deg Portread (Harri Parri)



Camp a hanner yw cyfansoddi un portread llawn, manwl, ond gorchestwaith yw cyfansoddi deg. Ond, 'rhoswch am funud, mae Harri Parri yn bencampwr ar y joban yma oherwydd, yn ôl yn 2013, llwyddodd i ddod ag wyth portread o'r wasg (Gwasg y Bwthyn yn digwydd bod y tro hwnnw, a'r tro yma). Roedd y rheini'n ddarluniau llawn – cyfoethog o lawn, a dweud y gwir – o Robin Williams, Mari Lloyd-Williams, y Tad Dewi, Idwal Wynne Jones, Bonni a Vivian (Davies), Gareth Maelor, y Tad Bonaventure a James Lusted yn y gyfrol *O'r Un Brethyn: Wyth Portread*.

Wyth mlynedd yn ddiweddarach, dyma gyhoeddi *Heb eu Tebyg: Deg Portread* ganddo. Mae yna wahaniaeth rhwng cyfrol 2013 a'r gyfrol hon yn 2021. Yn un 2013 roedd bron pob enw a bortreadwyd yn gyfarwydd i ni, wel, i mi beth bynnag! Mae enwau yn y gyfrol newydd yma sydd braidd yn ddiarth a rhai'n perthyn i oes a chyfnod arall. Ond eto, mae enwau rhai'n mynnu blaguro yn y meddwl wrth gael ein hatgoffa ohonynt.

Er enghraifft, dyna i chi Gwilym O. Roberts, Pontllyfni. Mae gen i gof o Gwilym O., y seicolegydd a'r pregethwr chwyldroadol ei wisg a'i syniadau crefyddol. Dwi ddim yn meddwl am eiliad y byddwn i wedi cytuno efo Gwilym O. ynglŷn â'i ddaliadau, ond mi fyddwn i wedi amenio'n llwyr ei amheuaeth o wisg crefydd ym mhob ystyr. Wedyn, dyna Mary Lloyd Williams, neu Mari Lewis, *Yr Herald*. Roedd hon yn orlawn o allu a doniolwch, ac os bu un blaen ei thafod mewn print, pulpud a sgwrs, dyma hi, ac mi fydda Mari Lewis yn fy mhlesio i i'r dim! Beth bynnag a ddywedir, roedd hon yn drysor mewn cnawd. Ac yna Elwyn Roberts, y gwyddonydd, yr ysbrydegwr a'r prifardd o'r un pentref â Harri – Llangian, ac i ni yma, brawd Rowena Griffiths. Elwyn – y talp o allu anhygoel o anarferol.

Ond wedi trafod y cymeriadau yna'n llawn, heb sôn am Bob, mab Mari Lewis, dyma Harri yn dangos nid yn unig ei ddawn lenyddol ond dawn yr hanesydd, ac mae Harri Parri yn hanesydd wrth reddf. Mae'n ymchwilgar, mae'n mynnu mynd at graidd stori, ond nid pob hanesydd sydd â'r dawn i gyfleu hen hanes yn fyw heddiw. Fel un o gyn-ddisgyblion y Dr R. Tudur Jones ym Mangor, un o brif haneswyr – os nad y prif hanesydd Cristnogol yng Nghymru'r ugeinfed ganrif – roedd bod mewn darlith Hanes yr Eglwys efo Tudur fel byw yn y cyfnod ei hun. Felly hefyd ddarllen portreadau Harri Parri o bobl fel Henry Hughes, Bryncir; y Tad Henry Bailey 'Maria' Hughes, Catherine Edwards, Mary Georgina Gough a Bettina Harden. Ond, i mi, mae darllen hanes Joseph Morris yn hanner llwgu ar Benrhyn Llŷn yn berl, a hynny oherwydd i Joseph Morris fod yn weinidog Salem, Porthmadog, am gyfnod byr!

'Tydi Harri Parri'n amryddawn, deudwch? Yn llenor ac yn sgwennwr diddorol a chyfoes, yn hanesydd, ac yn un sydd â chof fel lastig ganddo i fedru addysgu a'n hatgoffa ni i gyd o'r rhai a aeth o'n blaen ac a fu'n rhoi sbarc lliwgar i fywyd. Mae angen y sbarc hwnnw arnom ni heddiw. Ac ia, mi fynna innau gael y gair olaf, mae Harri ei hun yn llawn sbarc ... a jest yn ffrind da ac yn foi mwy na iawn!

Prynwch y llyfr. Mae'n werth pob ceiniog o'r decpunt-namyn-pum-ceiniog. Nain nainti ffaif, ia, fel 'sa Cofis yn deud, ia!

Iwan Llewelyn Jones

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol
Sul, 14 Tachwedd, am 7.30yh (ailddarlledir y Sul canlynol am 11.30yb)
Ar Sul y Cofio bydd Ryland yn cwrdd â chaplan a fu'n gefn i forwyr Llynges Prydain ar draws y byd. Cawn wrando ar berfformiad teimladwy C.Ô.R. o drefniant Eriks Esenvalds o'r 'Goleuni Tragwyddol'. Daw'r emynau o'r Deml Heddwch yng Nghaerdydd. Dyma gopi digidol o gylchlythyr mis Tachwedd. Cliciwch ar y ddolen isod: https://spark.adobe.com/page/oucfKNip3L8Cr/

BBC radio cymru

Sul, 14 Tachwedd – *Caniadaeth y Cysegr*, 7:30yb a 4:30yp
Elen Ifan fydd yn cyflwyno detholiad o emynau o Ddinbych

Sul, 14 Tachwedd – *Oedfa Radio Cymru*, 12:00yp
Gwasanaeth ar Sul y Cofio yng ngofal y Parch Ddr Elwyn Richards, Bangor

Cyflwyno pum Medal Gee i ffyddloniaid ysgol Sul Capel Newydd, Llanddarog

Pnawn Mercher, 6 Hydref, braint arbennig i Gyngor yr Ysgolion Sul oedd cyflwyno pum medal i griw ffyddlon a gweithgar Capel Newydd, Llanddarog, am oes o wasanaeth diwyd a ffyddlon i'w hysgol Sul.

Daeth nifer dda ynghyd ar gyfer y cyfarfod, a braf oedd gweld teuluoedd y rhai oedd yn derbyn medal yn bresennol. Trefnwyd y cyfarfod yn ofalus iawn gan weinidog yr eglwys, y Parch Emyr Williams. Fodd bynnag, ar y diwrnod bu'n rhaid i Emyr fodloni ar wylio'r gwasanaeth dros Zoom, gan ei fod wedi cael cais i hunanynysu ar y pryd. Braf oedd medru darlledu'r gwasanaeth yn fyw ar Zoom, a hynny'n caniatáu i fwy o bobl fod yn rhan o'r achlysur.

Wedi gair o groeso gan Aled Davies ar ran y Cyngor, yn absenoldeb anorfod Emyr, cymerwyd at y defosiwn gan Delyth Wyn Davies. Aed ymlaen wedyn i gyflwyno'r medalau i'r canlynol:

Margaret Beryl Voyle

Bu'n arolygwr yr ysgol Sul am nifer o flynyddoedd, ac yn athrawes ers 1974. Bu'n ddiwyd yn paratoi plant ar gyfer y cwis Beiblaidd blynyddol, cyngherddau plant yn y capel, trefnydd y trip ysgol Sul a sawl cyngerdd i godi arian at elusen. Hi hefyd oedd cynrychiolydd yr ysgol Sul ar bwyllgor Menter Gristnogol MIC.

Alun Lloyd Voyle

Bu Alun yn aelod ffyddlon o ddosbarth yr oedolion yn y capel am flynyddoedd lawer, ac mae wedi bod yn rhan o'r ysgol Sul yn y capel ers 65 o flynyddoedd. Mae'n flaenor ers 1968 ac yn aelod hynod weithgar.

Alun Williams

Mae Alun yn aelod o'r ysgol Sul ers 62 o flynyddoedd, ac wedi gwasanaethu fel ysgrifennydd, arolygwr a thrysorydd yn ei dro. Erbyn hyn ef yw athro dosbarth yr oedolion.

Daniel Keith Williams

Bu Daniel yn drysorydd yr ysgol Sul am gyfnod o ddeugain mlynedd, ac yn arolygwr droeon. Bu hefyd yn athro ar ddosbarth yr ieuenctid am flynyddoedd lawer. Mae hefyd yn organydd yn y capel ac am flynyddoedd bu'n gyfrifol am ddysgu emynau o'r Detholiad i'r plant.

Marian Margaret Williams

Bu Marian yn ysgrifennydd yr ysgol Sul ar sawl achlysur, ac yn arolygwr yn ei thro. Mae wedi treulio blynyddoedd lawer yn hyfforddi'r plant ar gyfer dramâu a dathliadau, gan gynnwys cyflwyniadau Norah Isaac a Nan Lewis. Bu'n hyfforddi plant hefyd ar gyfer y cwis Beiblaidd blynyddol gan Gyngor yr Ysgolion Sul, ac roedd y tîm yn enillwyr cenedlaethol yn 2002.

Yn dilyn hyn, aed ymlaen i gyflwyno tair medal arall, er anrhydedd, i dri a wnaeth gyfraniad nodedig yn hanes yr ysgol Sul yn genedlaethol, sef i'r Parchedigion Ifan a Catrin Roberts, a Mr Nigel Davies (cawn yr hanes hwn yn *Cenn@d* yr wythnos nesaf).

Wrth ddirwyn y cyfarfod i ben, diolchodd Aled Davies am ymroddiad y pum medalydd yn lleol, ac am gyfraniad Ifan, Catrin a Nigel i fywyd a gwaith ysgolion Sul a chlybiau plant Cymru.

Roedd chwiorydd y capel wedi bod yn brysur yn paratoi gwledd ar ein cyfer, a diolch am gyfle i sgwrsio yn ein seddau wrth fwynhau paned a chacen.

Aled Davies
Cyngor yr Ysgolion Sul

Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Symposiwm 'Salmau Cân Edmwnd Prys a'u Gwaddol'

Trefnir symposiwm gan Gyfeillion Llyfrgell Genedlaethol Cymru trwy gyfrwng Zoom yn ystod mis Tachwedd 2021 i nodi 400 mlwyddiant cyhoeddi Salmau Cân Edmwnd Prys yn 1621.

Bydd y symposiwn ar ffurf darlith wythnosol dros dair wythnos. Ni chodir tâl, ond rhaid cofrestru.
Croeso cynnes i bawb.

15 Tachwedd @5.30 o'r gloch
'Campwaith Edmwnd Prys: Salmau Cân 1621' - Gruffydd Aled Williams
Byddwn yn agor y Symposiwm yng nghwmni Gruffydd Aled Williams wrth iddo ddathlu cyfraniad arbennig Salmau Cân Edmwnd Prys a gyhoeddwyd bedwar can mlynedd yn ôl.
https://www.ticketsource.co.uk/llgcnlw/campwaith-edmwnd-prys-salmau-can-1621/e-qjdvlq

22 Tachwedd @5.30 o'r gloch
'Nodau ar bapur: cyhoeddi cerddoriaeth yng Nghymru drwy'r canrifoedd' – Rhidian Griffiths
Salmau Cân Edmwnd Prys yn 1621 oedd y llyfr Cymraeg cyntaf i gynnwys cerddoriaeth wedi'i hargraffu. Yn yr ail ddarlith yn y gyfres byddwn yn bwrw golwg ar ddatblygiad y traddodiad o argraffu cerddoriaeth yn y canrifoedd a ddilynodd y cyhoeddiad cyntaf hwnnw.
https://www.ticketsource.co.uk/llgcnlw/nodau-ar-bapur-cyhoeddi-cerddoriaeth-yng-nghymru-drwy-r-canrifoedd/e-zroblo

29 Tachwedd @5.30 o'r gloch
'Mydryddu'r Salmau: pedwar o olynwyr Edmwnd Prys' – Robert Rhys
I gloi'r gyfres yn nodi pedwar canmlwyddiant cyhoeddi Salmau Cân Edmwnd Prys bydd Robert Rhys yn cyflwyno ac yn cloriannu salmau mydryddol Dafydd Jones o Gaeo, Morris Williams (Nicander), Gwilym Hiraethog a Gwynn ap Gwilym.
https://www.ticketsource.co.uk/llgcnlw/mydryddu-r-salmau-pedwar-o-olynwyr-edmwnd-prys/e-vpxvkj

Mae copi o Salmau Cân 1621 i'w weld yn yr arddangosfa 'Beibl i Bawb' sydd yn Oriel Hengwrt yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru rhwng 1 Hydref 2021 a 2 Ebrill 2022:
https://www.llyfrgell.cymru/ymweld-a-ni/pethau-iw-gwneud/arddangosfeydd/beibl-i-bawb

Sut y gall addoldai helpu gyda'r argyfwng cartrefi?

Mewn ymateb i'r argyfwng cartrefi yng Nghymru, ffurfiwyd cynghrair newydd rhwng cymdeithasau tai a'r elusen ddigartrefedd genedlaethol Housing Justice Cymru, sy'n aelod o Cytûn. Y gobaith yw y bydd y bartneriaeth newydd hon yn cynyddu nifer y cartrefi fforddiadwy sy'n cael eu hadeiladu trwy ei rhaglen 'Faith in Affordable Housing', sy'n trawsnewid tir ac adeiladau eglwysig dros ben yn dai rhent gwirioneddol fforddiadwy o ansawdd uchel.

Er 2016 mae'r rhaglen Ffydd mewn Tai Fforddiadwy wedi dwyn ynghyd gymdeithasau tai ac eglwysi o wahanol enwadau i drawsnewid tir ac adeiladau segur yn dai fforddiadwy. Hyd yma mae'r rhaglen wedi hwyluso creu bron i 100 o gartrefi fforddiadwy ledled Cymru. Mae rhai prosiectau'n adeiladau newydd, mae rhai'n addasiadau ar adeiladau sydd yno eisoes, ac mae pob un yn unigryw.

Ym mis Gorffennaf 2020, daeth adolygiad o'r prosiect i'r casgliad, er mwyn cynyddu'n sylweddol faint o gartrefi gwirioneddol fforddiadwy y gellid eu cynhyrchu, y byddai angen mireinio'r rhaglen, gan weithio gyda nifer llai o gymdeithasau tai dethol.

Mae Housing Justice Cymru yn gweld llawer o botensial yn y partneriaethau newydd hyn, ac yn credu bod hwn yn gam hanfodol i rymuso grwpiau eglwysig a ffydd ledled Cymru i gyfrannu at ddatblygu cartrefi fforddiadwy o ansawdd uchel a chymunedau bywiog. Bydd Housing Justice Cymru yn parhau i gefnogi eglwysi a chapeli trwy'r broses ailddatblygu, i helpu grwpiau ffydd i ryddhau cyfalaf ar gyfer adnewyddu, aildrefnu a phrosiectau cenhadaeth neu etifeddiaeth ychwanegol, a'r un pryd yn helpu i ddatrys yr argyfwng cartrefi.

Ar ôl gweithio'n agos gyda chynulleidfaoedd lleol a phobl broffesiynol yn y maes am y 5+ mlynedd ddiwethaf, mae Housing Justice Cymru yn gwybod bod gan bob enwad ei drefn ei hun ar gyfer gwerthu / prydlesu asedau, ac yn sgil eu harbenigedd a'u profiad ar draws y sector tai, maent yn gallu cynorthwyo eglwysi i wireddu potensial llawn pob prosiect.

Os hoffech wybod mwy, ewch i: www.housingjustice.org.uk/cymru/fiah, neu er mwyn trafod capel /eglwys benodol, cysyllter â chydlynydd y cynllun, Sian Bradley: s.bradley@housingjustice.org.uk.

(o Fwletin Polisi Cytûn, Hydref/ Tachwedd: www.cytun.co.uk)

Enghraifft o'r rhaglen: Eglwys St Mathew yng Nghasnewydd

Cynt – eglwys wag, segur

Bellach – cartrefi o safon uchel ar rent fforddiadwy

Diolch a charedigrwydd yn Nantgaredig

Nos Sul, 17 Hydref, cynhaliwyd gwasanaeth diolchgarwch capel Nantgaredig. Bu aelodau'r eglwys wrthi'n addurno'r capel o flaen llaw, gan gynnwys coeden diolch. Hyfrydwch mawr oedd gweld ffrwyth eu llafur ar y noson a chafwyd gwasanaeth bendithiol.

Agorwyd y capel i'r cyhoedd yr wythnos olynol a chasglwyd £100 tuag at elusen Cancr y Fron.

Diolchwn i Mr Cliff Price am ei luniau bendigedig.

CYMDEITHAS EMYNAU CYMRU

Darlith Zoom

'Thomas Jones, Dinbych, yr emynydd'

gan

Y Parchg Ddr Andras Iago

Nos Fercher, 10 Tachwedd 2021, am 7.30pm

Am fanylion ymuno, cysylltwch â'r Athro E. Wyn James: JamesEW@caerdydd.ac.uk

Tywysog Tangnefedd mewn Byd o Ryfeloedd



Wrth arwain at dymor yr Adfent, fe fyddwn yn cyflwyno cyfres o fyfyrdodau o'r gyfrol The Prince of Peace in a World of Wars *gan David Kerrigan (llyfr Adfent y BRF) yn ganllaw ar gyfer astudiaeth a thrafodaeth mewn grŵp bychan ac ar gyfer myfyrdod personol. Hyd 2017 David Kerrigan oedd Cyfarwyddwr Cyffredinol Cenhadaeth Fyd-eang y BMS (Cymdeithas Genhadol y Bedyddwyr).*

2. Deall Heddwch

Shalom yma ar hyn o bryd

Darllen: Lefiticus 26:3–6

Beth mae'r gair 'heddwch' yn ei gyfleu i chi pan fyddwch yn ei glywed? Ai'r paned canol bore? Diwrnod i chi eich hun? Neu un o'r adegau prin hynny pan fyddwch chi efo'ch ffrindiau neu deulu ac yn sylweddoli 'bod hyn yn dda, yn dda iawn'? Mae'r rhain yn ffyrdd defnyddiol o ddechrau meddwl am yr hyn a ddeallwn wrth heddwch, oherwydd maen nhw'n ymwneud â materion llesiant (well-being). Heddwch ydy profi bodlonrwydd, o wybod bod pethau mewn trefn a chytgord. Heddwch ydy bod yn iawn. Mae heddwch yn gyflawnder. Wrth gwrs, mae heddwch hefyd yn fwy o lawer na hyn, ac mae'n rhaid iddo gynnwys perthynas ystyrlon â Duw a dymuniad bod eraill hefyd yn rhannu yn y profiad o heddwch. Ond gadewch inni beidio â rhuthro i'r fan honno eto, oherwydd mae yna berygl y gallen ni edrych heibio i rywbeth pwysig, rhywbeth y mae'n hawdd ei golli.

Mae'r darn yma o Lefiticus yn mynd â ni yn ôl i'r blynyddoedd hynny pan oedd pobl Dduw wedi dianc o gaethiwed yn yr Aifft. Yn dilyn hynny, cafwyd blynyddoedd o grwydro a dymuniad am le i setlo, rhywle y gallen nhw fod mewn heddwch, lle gallen nhw orffwys eu pennau, magu eu plant, tyfu cnydau, bod yn ddiogel ac addoli Duw. Oedd hyn yn ormod i ofyn amdano?

Nac ydoedd, yn amlwg, oherwydd yn adnod 6 mae Duw yn addo hyn i gyd ac rydym yn dechrau gweld natur amlochrog shalom Duw. Mae'n golygu glaw yn ei bryd, cnydau o'r tir a ffrwyth ar y coed (adn. 4). Ar ben hyn, fe fydd yna ddigonedd dros ben (adn. 5) gan eu hyswirio yn erbyn methiant cnydau. A bydd yna ddiogelwch a'r addewid y cânt gysgu'r nos am na fydd 'neb i'ch dychryn'. Bydd hyd yn oed yr anifeiliaid peryglus yn cael eu symud o'r tir a fyddan nhw ddim yn ofni byddinoedd yn ymosod (adn. 6). Roedd shalom yn gysyniad hynod o ymarferol a chorfforol.

Mae'r dyhead yma am bethau sylfaenol bywyd yn dal yn rhan o fywyd dynol heddiw. Rwy'n meddwl am y bobl yn ninas Flint ym Michigan, UDA, y newidiwyd eu ffynhonnell ddŵr yn 2014 ac a ddarganfu wedi hynny fod y lefelau plwm yn y dŵr yn llawer uwch na'r hyn oedd yn ddiogel. Roedd y gymuned gyfan yn ofni'r canlyniadau. Doedden nhw yn sicr ddim newn heddwch. Ddim mwy nag yw teulu arall rwy'n eu hadnabod lle mae eu dau blentyn yn methu dod o hyd i waith am nad oes yna swyddi i'w cael yn eu hardal leol – dychmygwch sut mae hynny'n eu hamddifadu o heddwch! Mewn rhannau eraill o'r byd, mae'r profiad o fyw dan oruchwyliaeth lwgr lle na cheir gweinyddu cyfraith a threfn yn brofiad cyffredin ond yn un sy'n peri pryder dwys, tra mae rhannau helaeth o'r Dwyrain Canol yn byw dan gysgod rhyfel a dylanwad ffwndamentalwyr Islamaidd. Yn yr 21ain ganrif mae diffyg bwyd, cysgod, dŵr a meddyginiaeth sylfaenol yn dal i fod yn bla ar fywydau miliynau lawer, sydd hefyd yn dyheu am heddwch.

Fe â'r gair 'shalom' i'r afael â phob un o'r sefyllfaoedd hyn, a does dim amheuaeth nad dyma un o'r geiriau mwyaf cyfoethog yn yr ysgrythur. Mae Duw yn addo 'heddwch yn y tir' ac nid dim ond heddwch yn ein calonnau. Mae shalom yn cynnwys pob adran a rhan o fywyd.

Yn amlwg, fe wreiddir yr harmoni hwn yn y berthynas gyfamodol rhwng Duw a'i bobl. Dywed adnod 3, 'Os byddwch chi'n ufudd a ffyddlon, ac yn gwneud beth dw i'n ei ddweud.' Mae yna ddisgwyliad bod shalom Duw yn rhan o berthynas fyw ag ef. Ni ddylid ystumio hyn i olygu bod Duw yn cynnig heddwch ond ei fod yn gyntaf yn mynnu rhywbeth yn gyfnewid amdano. Nid dyna'r ystyr a geir yma. Yr hyn mae Duw'n ei ddweud ydy bod ufudd-dod, fel ffrwyth perthynas fyw, yn syml yn creu'r amodau er mwyn i shalom flodeuo, yn hytrach na bod shalom yn cael ei gynnig fel gwobr am ymddwyn yn dda neu fel cosb am anufuddhau.

Fel y soniwyd yn ein darlleniad blaenorol, mae shalom yn brofiad ymarferol yn y corff. Gall esiampl syml ddangos hyn. Dwn i ddim pryd y bu ichi fwyta olew palmwydd ddiwethaf. Go brin y gallwch chi gofio, ond heddiw yw'r ateb mwyaf tebygol, oherwydd byddwch yn ei ganfod mewn byrbrydau, hufen iâ, bisgedi, siocled, grawnfwydydd ac yn y blaen. Mae'r galw am olew palmwydd yn enfawr oherwydd ei fod yn cael ei ddefnyddio heddiw yn lle traws-fraster (trans fat) niweidiol a arferai fod yn llawer o'n bwydydd. Felly, mae hynny'n dda inni. Ond, ar ochr arall y byd, yn Asia, Affrica ac America Ladin, ein hangen cynyddol am olew palmwydd yw prif achos datgoedwigo. Mae colli'r cynefinoedd hynny'n effeithio ar nifer di-rif o deuluoedd ac anifeiliaid, â charbon yn cael ei ollwng ar raddfa arswydus. Yn ei dro, mae hyn, yn ogystal â gweithredoedd eraill tebyg, yn golygu bod miliynau'n cael eu heffeithio gan lifogydd a seiclonau, sychder a gwres eithafol, wrth i'n hinsawdd fyd-eang newid, a hynny cyn inni roi sylw i'r effaith ar filiynau o bobl sy'n byw yn y goedwig neu oddi ar ei chynnyrch.

Mae ein gweithredoedd a'n dewisiadau'n effeithio ar fywydau eraill, ac mae gair Duw yn ein cymell i garu ein cymdogion fel ni ein hunain. Fe fyddai'r dewisiadau y gallwn eu gwneud – i fwyta'n wahanol, i gerdded mwy, i hedfan llai, a mil o ddewisiadau eraill – yn unol ag anogaeth Duw i feddwl am eraill yn hytrach na ni ein hunain. O ganlyniad, fe allem brofi mwy o shalom Duw efo'n gilydd drwy feddwl yn drugarog am ein cymdogion byd-eang. Fel hyn, fe welwn ni hefyd bod yn rhaid i shalom fod ar gyfer pawb, neu nid shalom mohono. Sut alla i fod mewn heddwch os yw bywyd fy nghymydog yn deilchion? Mae shalom ar gyfer pawb, neu nid yw ar gyfer neb.

Rydym yn barod nawr ar gyfer y naid nesaf mae'n rhaid inni ei gwneud: cysylltu ein dealltwriaeth o shalom nid yn unig â'n perthynas â Duw, ac nid yn unig ynglŷn â gwneud y byd yn well lle i fyw, ond fel cam tuag at y weledigaeth fwyaf un, nefoedd a daear wedi eu hadnewyddu. Rhoddir inni'r cip cyntaf chwilfrydig ar hyn wrth inni weld sut mae stori'r Nadolig yn rhan o'r adnewyddu yma.

Cyfarfod Sefydlu'r Parchedig Owain Idwal Davies

Roeddynddiwrnodgwireddubreuddwyd i Ofalaeth Bro Nant Conwy yng Nghapel Seion, Llanrwst, bnawn Sadwrn, 25 Medi. Croesawodd llywydd y cyfarfod, y Parchedig Carwyn Siddall, gynulleidfa o bob oed, gan ddatgan hapusrwydd o gael sefydlu'r Parchedig Owain Davies yn weinidog ar eglwysi Undeb yr Annibynwyr ac eglwysi Presbyteraidd Cymru yn yr ofalaeth newydd hon.

Cyflwynwyd yr emyn cyntaf, 'Deuwn, Iôr, yn ostyngedig', gan Eurig Huw Williams, Bethel, Melin-y-coed, gyda Mair Williams wrth yr organ.

Darllenwyd Salm 139 gan y Parchedig Helen Wyn Jones, cyn-weinidog rhai o eglwysi'r ofalaeth, a nododd o'i phrofiad y caiff y Parchedig Owain Davies bob cefnogaeth. Darllenodd y Parchedig Gerwyn Roberts ran o'r Effesiaid oedd yn sôn am yr Apostol Paul yn annog pobl i symud ymlaen er bod yr amgylchiadau'n anodd.

Offrymwyd gweddi bersonol ar ran y Gweinidog newydd gan y Parchedig Richard Glyn Jones, a ddiolchodd ei fod wedi derbyn yr alwad ac yn dechrau ar daith yn llawn ffydd a gobaith. Braf wedyn oedd gwrando ar Madi Gwyn, Capel Pandy Tudur, yn canu'n hyderus 'Nid wy'n gofyn bywyd moethus', gyda Ruth Owen yn cyfeilio.

Cyfrifoldeb Mr John Wyn Jones o Ofalaeth Bangor a'r Cyffiniau oedd cyflwyno'r Parchedig Owain Davies. Dymunodd yn dda iddo, gan roi teyrnged arbennig iddo am ei waith effeithiol dros bedair blynedd fel Gweithiwr Ieuenctid. Dywedodd ei fod yn 'gorwynt o unigolyn' ac yn 'fwndel o weithgarwch'.

Y Parchedig Owain Davies gyda'r rhai o'r ofalaeth a gymerodd ran: Eurig Williams, Gwydion Alun, Madi Gwyn ac Eirian Jones

Cyflwynwyd gweddi dros y Gweinidog gan y Parchedig Nan Wyn Powell-Davies.

Arweiniwyd rhan ffurfiol y sefydlu gan y Parchedig Carwyn Siddall. Holwyd y Parchedig Owain Davies am ei barodrwydd i fugeilio aelodau eglwysi'r ofalaeth. Ymatebodd yntau'n gadarnhaol i'r cyfan.

Cafwyd cyfarchion yn gyntaf gan y Parchedig Alan Spencer ar ran Eglwys y Tabernacl, Llanrwst, y Cyfundeb a'r Henaduriaeth. Nododd fod y Parchedig Owain Davies yn aelod ffyddlon a gweithgar yn y Tabernacl a bod y ddau enwad yn gefnogol iddo. Roedd cyfarchiad y Parchedig Eric Greene, Llywydd y Gymdeithasfa, yn dymuno'n dda i'r Parchedig Owain Davies ar y dechrau newydd hwn ac i'w eglwysi ym mro Nant Conwy.

Dilynwyd hyn gan air gan y Parchedig Trefor Lewis ar ran y Gweinidogion Gwirfoddol. Oherwydd ehangder yr ofalaeth a'r gwaith, eglurodd fod yna dri Gweinidog Gwirfoddol, sef ef ei hun, y Parchedig Richard Glyn Jones a'r Parchedig Eric Greene, oedd yn barod i'w helpu a'i gefnogi yn ei waith. Eglurodd hefyd fod y Parchedig Owain Davies, drwy gefnogaeth arian y cynllun Gweinidogaeth Newydd, yn gallu agor cyfnod newydd, arloesol yn hanes cenhadaeth yn Nyffryn Conwy. Bydd yn cael ei ryddhau o waith arferol yr ofalaeth am ddau ddiwrnod bob wythnos i weithio tu hwnt i furiau eglwysi gyda ffocws ar blant a phobl ifanc.

Daeth Gwydion Alun, Ysbyty Ifan, ymlaen i ganu cân oedd yn cynnwys teimladau perthnasol i'r achlysur drwy ddatgan fod 'cân yn y galon' a'i gân fel 'cân yr ehedydd'. Cyfeiliwyd iddo gan Elin Angharad.

Y Parchedig Owain Davies gyda llywydd y cyfarfod, y Parchedig Carwyn Siddall

Cafwyd siars i eglwysi'r ofalaeth gan y Parchedig Ddr Elwyn Richards, Bangor. Dyfynnodd o Efengyl Ioan gyda phwyslais ar y geiriau 'Y mae'n rhaid i ni gyflawni gweithredoedd yr hwn a'm hanfonodd', a gweithredu. Nododd fod yna gyfle felly i'r ofalaeth weithio fel tîm gyda'r Gweinidog newydd, ond i beidio disgwyl iddo allu gwneud popeth ei hun.

Cafwyd y gair olaf gan y Parchedig Owain Davies, a ddiolchodd am y trefniadau ac i bawb oedd wedi cymryd rhan. Nododd ei ddyled i'w deulu, oedd wedi ei gefnogi bob cam o'r daith a'i feithrin yn y ffydd Gristnogol. Roedd yn falch o gefnogaeth y ddau enwad a'r ofalaeth, a theimlai'n llawn cyffro am y dyfodol gyda chyfle i ganolbwyntio ar waith gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd. Roedd yn ymwybodol iawn fod yr amgylchiadau'n anodd ar hyn o bryd ond rhoddodd addewid clir i roi o'i orau i'r gwaith.

Cyflwynwyd yr ail emyn, 'Dyro dy gariad i'n clymu', gan Eirian Jones, Capel Nebo. Daeth cyfarfod llawn llawenydd a hyder am y dyfodol i ben gyda thraddodi'r fendith gan y Llywydd, Y Parchedig Carwyn Siddall.

Dyma gyfarfod hyfryd iawn

Gwae a Gwewyr

Gweddi

O Dduw, a Thad ein Harglwydd Iesu Grist, addolwn di. Ymostyngwn o'th flaen. Cydnabyddwn ger dy fron ein bod yn fynych yn colli golwg ar dy Arglwyddiaeth drosom, dy gariad erom, dy Ysbryd ynom. Arglwydd, addolwn di. Amen.

Emyn 363 'Cyduned nef a llawr'

Yr allwedd?

Pan ddarllenwn adnodau tebyg i'r rhai sydd o'n blaenau heddiw, efallai y byddwn yn dweud bod yr ieithwedd yn ddieithr a'r gwahanol adnodau'n ymddangos yn ddigyswllt.

Ond, fel lleidr sydd am ddwyn trysorau'r bathdy brenhinol, mae'n werth chwilio am yr allwedd sy'n caniatáu mynediad didramgwydd i'r holl gyfoeth! Tybed a oes allwedd yn yr adnodau sy'n caniatáu i ni ymgyfoethogi heddiw? Os oes, beth ydyw?

Darllen Marc 13:1–13

Y deml yn Jerwsalem, ei maint a'i harddwch yw cefnlen yr adnodau. Mae'n ymddangos bod rhai o arweinwyr y genedl yn ymffrostio nad oedd adeilad mwy, nac adeilad mwy urddasol, na'r deml i'w gael drwy'r byd i gyd. (A phwy ohonom, wedi dwy fil o flynyddoedd, sydd â'r gallu i farnu geirwiredd yr ymffrost!) Synnwyd y disgyblion gan broffwydoliaeth Iesu na fyddai gan y deml 'faen ar faen ... heb ei fwrw i lawr'.

Chwalwyd y deml wedi gwrthryfel yn erbyn y Rhufeiniaid yn 70 OC.

Wrth wynebu Jerwsalem o Fynydd yr Olewydd dychwelodd y disgyblion at eiriau Iesu gan ofyn pa bryd 'fydd hyn oll ar ddod i ben'? (adn 4)

Er mwyn deall yr adnodau hoffwn awgrymu mai adn. 9 yw'r **allwedd** i ddeall yr adran yn ei chyfanrwydd. 'Dechrau'r gwewyr fydd hyn,' meddai Iesu.

'Dechrau gwewyr' fydd dryswch, rhyfeloedd, daeargrynfâu, erledigaethau, a brad y byd. 'Dechrau'r gwewyr' ydyw sy'n diweddu gyda genedigaeth bywyd newydd. Bydd, fe fydd disgyblion Iesu'n byw eu bywydau yng nghanol helyntion y byd. Ond bydd sut yr ydym yn ymagweddu wrth i ni adnabod griddfan y greadigaeth a dyfodiad y deyrnas yn dystiolaeth glir i frenhiniaeth a gwerthoedd amgen Iesu.

'Gwyliwch na fydd neb yn eich twyllo,' meddai. Ni ddylem synnu os cyfyd pob math o gau Feseiaid ac ymhonwyr twyllodrus. Pan fydd disgyblion Iesu'n edrych ar y newyddion neu'n clywed am derfysgoedd a rhyfeloedd, am adegau o newyn ac am fygythiadau o bob math, 'peidiwch â chyffroi' (adn 7). Nid yw digalondid yn opsiwn. Gwewyr dechreuadau bywyd newydd ydynt oll i gyd.

Pan ddaw gwrthwynebiad ac erledigaeth i'n rhan, 'gwyliwch eich hunain,' meddai Iesu. I Gristnogion ar bob cyfandir, hyd heddiw, mae wynebu llysoedd, poenydio, wynebu llywodraethau sy'n wrthwynebus i'w achos ef (adn 9) yn dystiolaeth i fodolaeth brenhiniaeth uwch a gwerthoedd gwahanol i greulondeb y byd.

Er y bydd plant yn cefnu ar eu rhieni a brad gan anwyliaid yn dod 'o achos fy enw i' (adn 13) ac er y byddai ei ddisgyblion yn gorfod sefyll mewn amgylchiadau dyrys, 'peidiwch â phryderu beth i'w ddweud' (adn 11). Ni fydd y Cristion symlaf ei ffydd wedi ei amddifadu o bresenoldeb nac o arweiniad yr Ysbryd Glân, o Ysbryd Iesu, sy'n cartrefu ynddynt.

Addewidion

Fe allai'r holl eiriau hyn fagu pryder, ofn neu anobaith hyd yn oed ymhlith y disgyblion. Ar ryw olwg darlun tywyll, llawn o boen a thrallod yw'r hyn mae Iesu'n gwahodd ei ddisgyblion i'w brofi. A phwy ddewisai'r fath lwybr?

Ond mae Iesu hefyd yn cynnig gobaith, yn cynnig gweledigaeth neu ddealltwriaeth wahanol am natur yr holl brofiadau croes a ddaw i'w rhan. Nid yw'n dibrisio'r boen na'r ymdrech na'r treialon a ddaw i ran ei ddisgyblion. Ond nid poen marwolaeth, nid poen dihoeni a cholli tir yw'r hyn mae'n ei ddisgrifio.

Poenau 'esgor' sy'n agor y drws i fywyd newydd yw'r cyfan oll i gyd. Mae greddf gobaith a chariad yn caniatáu i fam, yng ngriddfan poenau'r esgor, ddwyn y bywyd y bu'n ei gario yn nirgelwch ei chroth i amlygrwydd. Daw'r gobaith sydd ynghudd yng nghalon y credadun gwannaf i'r amlwg yng nghanol y gwewyr.

Felly, 'gwyliwch' rhag i ni gael ein twyllo gan ein hamgylchiadau. Yng nghanol ofnau a phoen y byd gwêl y Cristion 'nad yw dioddefiadau'r presennol i'w cymharu â'r gogoniant sydd ar gael ei ddatguddio i ni ... Oherwydd fe wyddom fod yr holl greadigaeth yn ochneidio, ac mewn gwewyr drwyddi, hyd heddiw. Ac nid y greadigaeth yn unig, ond nyni sydd â blaenffrwyth yr Ysbryd gennym, yr ydym ninnau'n ochneidio ynom ein hunain wrth ddisgwyl ein mabwysiad yn blant i Dduw' (Rhufeiniaid 8:18, 22–3).

Tybed nad oes angen i ni yn ein capeli glywed yr ail addewid heddiw. Addewid ydyw sy'n llawn o hyder: 'Rhaid i'r efengyl gael ei chyhoeddi i'r holl genhedloedd' (adn 10). O dan arweiniad yr Ysbryd Glân fe fydd gair yr Efengyl yn mynd ar led ac yn llwyddo, heb ddychwelyd at yr Arglwydd yn wag. Eglurodd Marc natur yr efengyl honno i ni yn adnod agoriadol yr efengyl. Newyddion da ydyw am ddyfodiad 'Iesu Grist, Mab Duw' (1:1). Mae'n newyddion drwg i frenhinoedd, ymerodraethau a llywodraethau sydd am gyhoeddi eu goruchafiaeth a'u rhagoriaeth eu hunain, sydd am osod eu hunain i fyny fel y grym sy'n llywodraethu, yr awdurdod sy'n mynnu ufudd-dod digwestiwn. Ond, i'r rhai sy'n byw mewn caethiwed a gormes, mae ei ddyfodiad, ei arglwyddiaeth a'i goncwest ar angau a'r bedd yn newyddion da.

I'r rhai sy'n wynebu bywyd â'i holl dreialon yn 'fy enw i' gan godi'r groes a'i chyfri'n goron, daw addewid rasol, lawn gobaith i'n clyw: 'Y sawl sy'n dyfalbarhau i'r diwedd a gaiff ei achub.' Ymyrraeth gras a'i hachubodd. Arwydd o ras achubol yw ein dyfalbarhad. Ni chawn ein hachub am i ni ddyfalbarhau i'r diwedd. Ond bydd y rhai sydd wedi eu hachub yn dyfalbarhau i'r diwedd!

Diolch Iddo!

Gweddi

Arglwydd Iesu, mor aml y cawsom ein llygad-dynnu gan adeiladau gwych a sefydliadau urddasol. Mor aml y cawsom ein dychryn gan amgylchiadau, ein bwrw i anobaith oherwydd poen y byd a threialon dy bobl. Caniatâ i ninnau fod yn effro i adnabod gwewyr y bywyd newydd sydd ar waith yn ein byd. Caniatâ i ni fyw ym mhresenoldeb dy Ysbryd Glân. A chaniatâ i ninnau drwy dy ras gyfrannu at ledaeniad y newyddion da am yr Arglwydd Iesu Grist. Ac mewn ufudd-dod ffydd a gobaith, caniatâ i ninnau ddyfalbarhau i'r diwedd a derbyn cyflawnder dy achubiaeth rasol. Amen.

Emyn 605 'Mae'r nos fu'n llethu'

RWJ

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru